9. Cofio heddiw a wnawn ni'r plant,
Enw annwyl Dewi Sant,
Fe a wnaeth tra bu e'n byw
Ein gwlad yn wlad i Dduw.

Cytgan.
Dewi Sant rho help inni
I gerdded yn dy lwybrau di
A chael Cymru fach yn un
Drwy dy gariad di dy hun.

Pethau bychain, meddai ef,
Sydd yn dda yng ngolwg ne',
Gwnewch ddaioni ymhob man,
Gwnewch yn gryf y gwan.

10. Cofio 'wnawn am nawddsant Cymru
Heddiw Mawrth y cyntaf yw.
Carodd wlad a charodd Iesu
Carodd rodio llwybrau Duw.

Carodd wneud y pethau bychain
'Ddysgwyd gan yr Iesu gwiw.
Carodd bopeth hardd a chywrain
Carodd ddysgu'r grefft o fyw.

Fe bregethodd, do, drwy Gymru,
Yr Efengyl yn ei bri
Carodd grwydro o Dyddewi
I Lanandras drosti hi.

Caru Cymru, caru cydddyn,
Caru Crist wnaeth Dewi Sant.
Ceisio'i ddilyn ynteu wedyn,
A wnawn ninnau Gymru'n plant.

Cofio 'wnawn am nawddsant Cymru
Heddiw Mawrth y cyntaf yw.
Carodd wlad a charodd Iesu
Carodd rodio llwybrau Duw.

# Cymanfa Fodern Ysgol Sul Bethlehem

## Mawrth 6ed 1994 10.30 a.m.

1. Estyn dy law i helpu'r plant sydd yn y byd,
Estyn dy law, mae rhai mewn angen mawr o hyd,
Angen ffydd, angen ffrind
I ymddiried ynddo'n llwyr
Angen cyfaill fydd yn ffyddlon,
Mawr ei angen, Duw a ŵyr;
Estyn dy law, o estyn di dy law.

Estyn dy law i helpu'r plant sydd yn y byd,
Estyn dy law, mae rhai mewn angen mawr o hyd,
Mae dy frawd, mae dy chwaer
Angen cymorth gennyt ti,
Goddefgarwch a thangnefedd
A maddeuant yn ein cri;
Estyn dy law, o estyn di dy law

Estyn dy law i helpu'r plant sydd yn y byd,
Estyn dy law, mae rhai mewn angen mawr o hyd,
Angen gair, angen gwên,
Angen cyfeillgarwch sydd,
Angen brawd a chwaer a chariad,
Dyna'r angen nos a dydd;
Estyn dy law, o estyn di dy law

2. Dewch holl ieuenctid Cymru, ymunwch o un fryd,
I anfon neges heddwch, at holl genhedloedd byd.
Yn wyneb trais a gormes, ac anghyfiawnder trist,
Boed inni estyn cymorth, yn enw Iesu Grist.

Dysg ni o Dduw i wrando, ar gri'r newynog tlawd,
Troi geiriau yn weithredoedd, trwy helpu chwaer a brawd,
Dileu achosion rhyfel a'i holl effeithiau i gyd,
A mynnwn gyda'n gilydd, gael glanach, purach byd.

Drwy gyfrwng iaith ein mamau, sy'n ddiarth iawn i chi,
Er hynny 'run yw'r neges, sydd yn ei seiniau hi.
Iaith cymod a chyfiawnder, iaith cariad ac nid cledd,
Iaith undod rhwng y gwledydd, fydd iaith tragwyddol hedd.

3. Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun
Wrth ymyl fy ngwely i;
Bob bore a nos, mae'u gweddi'n un dlos,
Mi wn er na chlwyaf hi.

Pan af i gysgu, mae'r ddwy law hynny
Wrth ymyl fy ngwely i;
Mewn gweddi ar Dduw, i'm cadw i'n fyw,
Mi wn er na chlwyaf hi.

A phan ddaw'r bore, a'r wawr yn ole
Wrth ymyl fy ngwely i;
Mae'r weddi o hyd, yn fiwsig i gyd,
Mi wn er na chlwyaf hi.

Rhyw nos fach dawel, fe ddwg yr awel
O ymyl fy ngwely i;
Y weddi i'r sêr, fel eos o bêr,
A minnau'n ei chlywed hi.

4. Cytgan. Mae ganddo'r byd cyfan yn Ei law
Mae ganddo'r byd mawr cyfan yn Ei law
Mae ganddo'r byd cyfan yn Ei law
Mae ganddo'r byd mawr yn Ei law

1. Mae ganddo blant Cymru yn Ei law

2. Mae ganddo blant Morgannwg yn Ei law

3. Mae ganddo blant Bethlehem yn Ei law

5. 'Rwy'n llawen am fy mod i'n caru Iesu Grist (3)
Llawenydd yw 'mywyd bob dydd.

'Rwy'n gwybod fod yr Iesu yn fy ngharu i (3)
Mae'n caru bob plentyn drwy'r byd.

Fe ddwedaf i wrth eraill am ei gariad Ef, (3)
Caf rannu'r llawenydd â hwy.

6. Yr Arglwydd yw fy mugail, Dilynaf Ef bob dydd;
Fe'm tywys at y dyfroedd, Dilynaf Ef bob dydd.
Bob dydd, bob dydd, Dilynaf Ef bob dydd;
Bob dydd, bob dydd, Dilynaf Ef bob dydd.

7. O rwy'n perthyn i deulu y mwya'n y byd.
A miloedd mwy bob dydd a enir o hyd,
Nid Jones yw yr enw, nid Huws, nid Puw,
Ond fel un teulu mawr yn y byd yn byw.

Cytgan.
Ry'n ni'n frodyr i bawb, chwiorydd
Yn deulu sy'n caru ein gilydd
Ie, un teulu ydym, teulu'r bydd.

Gen i chwaer yn yr Affrig, gen i frawd yn Sbaen.
Wncwl Andre yn Ffrainc, Anti Bet ar y Waun,
Mae mam, ac mae 'nghefndryd, mae'r byd i gyd
Yn creu un teulu dyn hyd a lled y byd.

O 'rwy'n perthyn i'r Indiaid a phobl Periw,
Beth bynnag yw eu cred, beth bynnag eu lliw
Ar draws cyfandiroedd o fôr i fôr
Fawr a mân, canwn gân, uno wnawn yn gôr.

8. Molwn, molwn, molwn Ef bob bore,
Molwn Ef bob nawnddydd,
Molwn, Molwn,
Molwn Ef hyd fachlud haul.

Gweini, gweini, gweini wnawn bob bore,
Gweini, wnawn bob nawnddydd,
Gweini, gweini,
Gweini wnawn hyd fachlud haul.

Credu, credu, credu wnawn bob bore,
Credu, wnawn bob nawnddydd,
Credu, credu,
Credu wnawn hyd fachlud haul.